Cyfradd Llog Safonol

Cyflwynwyd rheoliadau ym mis Tachwedd 2004 a newidiodd y ffordd o gyfrifo'r gyfradd llog safonol ar gyfer costau tai mewn cymhorthdal incwm, Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm a Chredyd Pensiwn.

Gall perchenogion tai sy'n bodloni amodau'r hawl i gael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn y Wladwriaeth gael help tuag at daliadau llog morgais cymwys a chostau tai penodol eraill.

Os bydd gan berchennog t_ forgais cymwys, cyfrifir ei gostau tai a ganiateir drwy ddefnyddio Cyfradd Llog Safonol.

Mae'r gyfradd yn seiliedig ar Gyfradd Sylfaenol Banc Lloegr gyda 1.58% yn ychwanegol.

Bydd y gyfradd o 6.58% yn effeithiol o 18 Mai 2008.